Camau i'r Dyfodol

Cynnydd Dysgu i Gymru | Learning Progression for Wales

University of Glasgow

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Bydd yr adnodd hwn yn:

- Cyflwyno gwaith prosiect **Camau i'r Dyfodol**
- Cyflwyno rhai o'n canfyddiadau o **Gam 1** y prosiect
- Nodi rhai **goblygiadau a chwestiynau cynnar i ysgolion a lleoliadau**

Beth yw Camau i'r Dyfodol?

Mae Cwricwlwm i Gymru yn gofyn i ni gael golwg fwy cyflawn ar gyflawniadau dysgwr, gan gydnabod bod pob un yn dechrau ar bwynt gwahanol ac yn gwneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol.

Mae Camau i'r Dyfodol wedi'i gynllunio i ddeall yn well beth mae hynny'n ei olygu i ddysgwyr, ymarferwyr a'r system addysg ehangach.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Glasgow a Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag ymarferwyr a phartneriaid addysgol i ddatblygu dealltwriaeth ymarferol o gynnydd i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm yng Nghymru.

Rhennir y prosiect yn bedwar cam, gyda phob un yn llywio'r nesaf.

Cam 1 Deall ble rydyn ni → **Cam 2** Meithrin gwybodaeth a rennir → **Cam 3** Adeiladu gallu system → **Cam 4** System hunangynhaliol

Roedd Cam 1 yn canolbwyntio ar:

- ddarganfod **sut mae ymarferwyr ac arweinwyr yn gweithio tuag at gynnydd mewn dysgu** a gwireddu'r cwricwlwm
- deall yn well **y berthynas** rhwng y cwricwlwm, asesu, addysgeg a chynnydd
- rôl **cydadeiladu** wrth gefnogi cynllunio cwricwlwm ac wrth gefnogi newid addysgol yn gyffredinol

Gwnaethom hyn drwy:

- **adolygiad o lenyddiaeth** i ddeall yr ymchwil ar y berthynas rhwng y cwricwlwm, asesu, addysgeg a chynnydd
- **Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol** gydag ymarferwyr i ddeall sut mae'n nhw'n agosau at gynnydd
- **grwpiau trafod** gydag ymarferwyr, arweinwyr, a phartneriaid i archwilio sut maent yn meddwl am gynnydd a gweithio gydag eraill
- **datblygu model newydd o gydadeiladu** i gefnogi gwaith y prosiect

Beth ydyn ni wedi'i ddarganfod?

- Mae **Cam 1** wedi rhoi nifer o fewnwelediadau i ni am sut mae cynnydd yn cael ei ddeall a'i wireddu ar draws y system addysg

- Mae'r mewnwelediadau hyn yn helpu i lywio gwaith y prosiect yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu deunyddiau ategol ar gyfer cynnydd yng **Ngham 2** a thu hwnt

1 Cyd-adeiladu a chydweithio

- Mae ysgolion a chlystyrau wedi ymrwymo'n gryf i gydweithio a gwella
- Gall cydweithio fod yn arf heriol ond pwerus ar gyfer newid addysgol
- Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng ymreolaeth ymarferwyr a'r angen am gydlyniad ar draws ysgolion
- Mae cyd-adeiladu effeithiol yn gofyn am le ac amser meddwl i gymryd rhan mewn deialog a datrys problemau i greu gwybodaeth newydd.
- Gall fod yn anodd gadael hen syniadau a thynnu sylw at rai cymhleth, ond hefyd yn rhoi boddhad mawr i gyfranogwyr a'r broses ddylunio.

2 Cynnydd mewn Dysgu a Dilyniannu'r Cynnydd yn y Dysgu

- Mae yna **ffyrdd tra gwahanol o feddwl am gynnydd:**
  - Mae gan Gwricwlwm i Gymru gysyniad eang o ***gynnydd mewn dysgu*** – a ddisgrifir gan egwyddorion cynnydd sy'n nodi sut y dylai dysgwyr symud ymlaen ar draws yr *holl ddysgu*, ac mewn ymateb i anghenion dysgwyr
  - Mae llenyddiaeth ymchwil yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar **ddilyniannu'r cynnydd mewn dysgu pwnc-penodol** – llwybrau y gallai dysgu fynd yn eu blaenau mewn maes penodol. Gall y rhain gefnogi meddwl am ddysgu (gan ddefnyddio tystiolaeth dysgwyr) ond ni ddylid eu hystyried yn llwybrau sefydlog i bob dysgwr
- Mae asesu ffurfiannol yn allweddol i gefnogi cynnydd mewn dysgu – mae arbenigedd ymaddasol ymarferwyr yn allweddol
- Mae ysgolion a chlystyrau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, ac asesu ar gyfer cynnydd
- Nid yw'r berthynas rhwng cwricwlwm, asesu, addysgeg a chynnydd mewn dysgu wedi'i harchwilio'n llawn eto mewn ymchwil

Beth ydyn ni wedi'i ddarganfod?

- Mae **Cam 1** wedi rhoi nifer o fewnwelediadau i ni am sut mae cynnydd yn cael ei ddeall a'i wireddu ar draws y system addysg

- Mae'r mewnwelediadau hyn yn helpu i lywio gwaith y prosiect yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu deunyddiau ategol ar gyfer cynnydd yng **Ngham 2** a thu hwnt

3

Asesu cynnydd

- Mae ymarferwyr yn gweithio'n galed i asesu cynnydd mewn ffyrdd sy'n **ddilys, yn ffurfiannol ac wedi'u hymgorffori** mewn dysgu o ddydd i ddydd.
- Mae dysgwyr yn gynyddol **wrth wraidd** y broses asesu.
- Mae **gwahanol fannau cychwyn a dulliau** o asesu cynnydd yn cael eu harchwilio'n feddylgar, ond ar hyn o bryd nid oes yr un ohonynt yn dod i'r amlwg yn gyson.
- Erys rhai cwestiynau ynghylch y rhyngweithio rhwng cymwysterau a chynllun y cwricwlwm, ond mae ymrwymiad cryf i gynnal ac adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu cynnydd wrth gynllunio'r cwricwlwm.

4

Newid diwylliant a'r Cwricwlwm

- Mae ymarferwyr yn **croesawu her newid diwylliant** ac yn addasu i ddisgwyliadau newydd.
- Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn darparu gwybodaeth hanfodol a sylfaen bwysig ar gyfer creadigrwydd ac arloesedd ymarferwyr, er y gellid eu mireinio dros amser.

Camau i'r Dyfodol
Cynnydd Dysgu i Gymru | Learning Progression for Wales

University of Glasgow

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Cyd-adeiladu: o fewnwelediad i weithredu

- Darparodd **Cam 1** y prosiect fewnwelediadau pellach a oedd yn uniongyrchol berthnasol i ysgolion a lleoliadau

- Mae'r dudalen hon yn cynnwys **mewnwelediadau** ar y broses o gyd-adeiladu, **cwestiynau adfyfyriol** i'w gofyn am eich dull eich hun, ac **ystyriaethau ar gyfer gweithredu** yn eich cyd-destun. Gellir dod o hyd i ystyriaethau pellach ar gyfer gweithredu yn ***Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm***.

Mewnwelediad allweddol	Cwestiwn adfyfyriol	Ystyriaeth ar gyfer gweithredu
Gall gweithio a meddwl gyda'n gilydd **ar draws ysgolion, cyfnodau, a chlystyrau gefnogi cyd-adeiladu.**	Gyda phwy allech chi weithio fel hyn?	➢ Annog dulliau cydweithredol gydag ysgol clystwr, partneriaethau trawsranbarthol, prifysgolion, cyrff proffesiynol
Gall annog **beirniadaeth gefnogol** mewn cyd-adeiladu helpu i symud i ffwrdd o feddwl sydd wedi'i wreiddio a chefnogi newid diwylliant.	Sut gallwch chi ddarparu'r anogaeth hon?	➢ Cael yr amgylchedd cywir ar gyfer trafodaethau am gynnydd dysgu, cyfleoedd trawsadrannol, sgyrsiau clwstwr parhaus yn canolbwyntio ar ddatblygiad dysgwyr
Mae cyd-adeiladu yn dod â **newidiadau mewn hyder** ymhlith cyfranogwyr. Mae'n bwysig **datgymalu'r clymau** wrth iddynt godi.	Beth allai helpu pan fydd hyder yn lleihau? Sut gallwch chi ddyfalbarhau gyda materion clymog?	➢ Ymgysylltu â mewnbynnau (gan gynnwys **deunyddiau ategol presennol Llywodraeth Cymru** ac ymchwil ehangach) i helpu meddwl ➢ Amser penodedig i drafod syniadau ➢ Cefnogi cydweithio traws-ardal ➢ Nodi cyfleoedd staff i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd drwy'r ysgol
Bydd tensiynau rhwng y broses ddeinamig o gyd-adeiladu a rhoi dulliau ar waith yn y dosbarth.	Sut gallwch chi helpu i gadw'r ddau factor hyn yn gytbwys?	➢ Darparu amser dynodedig ac amgylcheddau cadarnhaol i staff dreialu dulliau arloesol, **gwerthuso'r dulliau** gyda thystiolaeth, ac ymgysylltu â **deunyddiau ategol** perthnasol.

Camau i'r Dyfodol
Cynnydd Dysgu i Gymru | Learning Progression for Wales

University of Glasgow

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Datblygu dilyniant: o fewnwelediad i weithredu

- Darparodd **Cam 1** y prosiect fewnwelediadau pellach a oedd yn uniongyrchol berthnasol i ysgolion a lleoliadau

- Mae'r dudalen hon yn cynnwys **mewnwelediadau** ar y broses o gyd-adeiladu, **cwestiynau adfyfyriol** i'w gofyn am eich dull eich hun, ac **ystyriaethau ar gyfer gweithredu** yn eich cyd-destun. Gellir dod o hyd i ystyriaethau pellach ar gyfer gweithredu yn ***Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm***.

Mewnwelediad allweddol	Cwestiwn adfyfyriol	Ystyriaeth ar gyfer gweithredu
Mae **cynnydd mewn dysgu** (gweler **yma**) yn gysyniad eang yng Nghwricwlwm i Gymru ac ni ddylid ei gyfuno â **dilyniannu cynnydd mewn dysgu** penodol.	Sut ydyn ni wedi ystyried *cynnydd mewn dysgu* ar draws ein cwricwlwm? Sut ydym ni'n cynllunio ar gyfer hyn?	➢ Annog staff i ymgysylltu â deunydd ategol presennol a chydweithio ar draws meysydd ysgol. ➢ Canolbwyntio sgyrsiau ar gynnydd yn hytrach nag ar ganfyddiadau ynghylch mesurau atebolrwydd – ar wella yn hytrach na phrofi.
Ni all hyd yn oed cynnydd dysgu sy'n canolbwyntio ar Faes neu ddisgyblaeth benodol gael ei gynrychioli gan lwybr llinol neu ddiffiniol ar gyfer dysgu.	I ba raddau y mae hynny'n cyd-fynd â dealltwriaeth eich staff?	➢ Annog staff i ymgysylltu â chanllawiau a chydweithio, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig yn eu meysydd ac ar gyfer datblygiad y dysgwr, yn hytrach na gweithio tuag at amcanion atomedig. Mae hyn yn golygu rhoi gwerth ar y broses ddysgu, nid yn unig ei chynnyrch terfynol.
Mae dealltwriaeth lefel uchel o sut mae dysgwr yn datblygu dros amser yn bwysig ar gyfer cynllunio tymor hwy. Gallai ymarferwyr ddefnyddio hyn i ddatblygu syniadau cynnydd sy'n cefnogi rhyngweithio ystafell ddosbarth.	Sut gallai'r syniad hwn lywio cynllunio tymor byr a hirdymor yn eich ystafelloedd dosbarth?	➢ Sicrhau bod staff yn ymgorffori dealltwriaeth o ddatblygiad dysgwyr yn y tymor hir yn eu hymagwedd at gynnydd, gan ddefnyddio canllawiau'r cwricwlwm a gwybodaeth yr ymarferwyr eu hunain o'u dysgwyr.

Camau i'r Dyfodol

Cynnydd Dysgu i Gymru | Learning Progression for Wales

University of Glasgow

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Trafodaethau i'w cael yn eich cyd-destun

- Daw'r cwestiynau sgwrsio hyn o Gam 2 *Camau i'r Dyfodol* a Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol parhaus.

- Gallwch ddefnyddio'r cwestiynau hyn i **ysgogi sgyrsiau, herio meddyliau, ysgogi trafodaethau** a **magu hyder** o amgylch gwahanol rannau o ganllawiau'r cwricwlwm ynghylch cynnydd ymhlith staff yn eich ysgol neu leoliad eich hun.

	Cwestiynau	Myfyrdodau o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru
1	**Sut ydym ni'n deal beth mae cynnydd yn ei olygu a sut mae hyn yn llywio sut rydym yn ei gynllunio?**	Mae **egwyddorion cynnydd** yn mynegi sut y dylai dysgwyr symud ymlaen yn eu dysgu tuag at y **pedwar diben**. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gynnydd gael ei wreiddio mewn dysgu ac addysgu a dylai fod yn sail i feddwl mewn ysgolion wrth ddylunio a chynllunio cwricwlwm yr ysgol.
2	**Sut mae meysydd pwnc yn dylanwadu ar ein ffordd o feddwl am gynnydd?**	Nid yw Cwricwlwm i Gymru yn rhagnodi rhestr o bynciau neu weithgareddau, ond hanfod dysgu a ddylai fod yn sail iddynt. Gan ddefnyddio'r canllawiau, rhaid i ysgolion benderfynu pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau yn y meysydd fydd yn cefnogi eu dysgwyr i wireddu'r pedwar diben.
3	**I ba raddau y dylai ein cwricwlwm fod yn thematig neu'n ryngddisgyblaethol yn y cyfnod cyffredinol eang?**	Mae'r chwe Maes yn dod â disgyblaethau cyfarwydd ynghyd ac yn annog cysylltiadau cryf ac ystyrlon ar eu traws. Mae'r disgyblaethau unigol hynny yn dal yn chwarae rhan bwysig, yn enwedig wrth i ddysgwyr symud ymlaen a dechrau arbenigo. Mae'r ***Daith i Weithredu'r Cwricwlwm*** yn cynnwys canllawiau ar y dull o symud ymlaen mewn disgyblaethau.
4	**Sut mae dysgwyr gwahanol yn llywio ein ffordd o feddwl am gynnydd?**	Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o anghenion pob dysgwr wrth ddylunio eu cwricwlwm. Mae **deunyddiau ategol presennol** Llywodraeth Cymru ynghylch asesu yn pwysleisio pwysigrwydd disgwyliadau ymarferwyr o ddysgwyr a'u barn broffesiynol i lywio'r dull o sicrhau cynnydd.

Trafodaethau i'w cael yn eich cyd-destun

- Daw'r cwestiynau sgwrsio hyn o Gam 2 *Camau i'r Dyfodol* a Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol parhaus.

- Gallwch ddefnyddio'r cwestiynau hyn i **ysgogi sgyrsiau, herio meddyliau, ysgogi trafodaethau** a **magu hyder** o amgylch gwahanol rannau o ganllawiau'r cwricwlwm ynghylch cynnydd ymhlith staff yn eich ysgol neu leoliad eich hun .

	Cwestiynau	Myfyrdodau o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru
5	**Sut mae dysgwyr yn meddwl am ein cwricwlwm newydd, a sut maen nhw'n cymryd rhan?**	Dylai cwricwlwm ysgol dynnu ar lais y dysgwr ac ymateb i anghenion, profiadau a mewnbwn dysgwyr. Yn yr un modd, dylid cefnogi dysgwr i feddwl am ei gynnydd ei hun dros amser.
6	**Sut allwn ni osgoi cynnydd rhag dod yn 'ymarfer ticio blychau"?**	Mae'r disgrifiadau dysgu yn darparu pwyntiau cyfeirio ar gyfer sut olwg sydd ar cynnydd wrth i ddysgwyr ddatblygu tuag at y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae angen defnyddio'r rhain gyda'r ~~g~~ egwyddorion cynnydd er mwyn deall beth mae'n ei olygu i ddysgwyr symud ymlaen.
7	**Sut gallwn ni sicrhau prosesau asesu hylaw ac ystyrlon i ddeall a chefnogi cynnydd dysgwyr?**	**Diben asesu** yw cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol mewn perthynas â'r continwwm 3 i 16. Mae dysgwyr wrth galon yr asesu a dylid eu cefnogi i ddod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu. Mae asesu yn broses barhaus na ellir ei gwahaniaethu oddi wrth ddysgu ac addysgu.
8	**Pa fathau o wybodaeth am gynnydd sydd ei hangen arnom ar gyfer dysgwyr a'u rhieni neu ofalwyr?**	Mae angen i ysgolion a lleoliadau **rannu gwybodaeth â rhieni a gofalwyr** am: y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud; ei anghenion er mwyn gwneud cynnydd yn y dyfodol; sut y gellir cefnogi anghenion er mwyn gwneud cynnydd gartref; eu llesiant cyffredinol yn yr ysgol. Mater i ysgolion yw penderfynu pa wybodaeth sy'n cynrychioli orau'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud yn erbyn eu cwricwlwm.

Camau i'r Dyfodol

Cynnydd Dysgu i Gymru | Learning Progression for Wales

University of Glasgow

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Camau nesaf

Mae **Cam 2** wedi dod â grŵp cyd-adeiladu o ymarferwyr, partneriaid addysgol ac ymchwilwyr ynghyd i nodi meysydd blaenoriaeth a chyfleoedd i ddatblygu deunyddiau ategol. Mae'r grŵp yn defnyddio tystiolaeth o ymchwil, polisi ac ymarfer i:

- **archwilio syniadau** cynnydd **mewn dysgu** sy'n cynnwys dysgu sy'n seiliedig ar ddisgyblaeth
- deall y **cymorth sydd ei angen ar ysgolion a lleoliadau** i sicrhau newid diwylliant
- dod o hyd i gydbwysedd rhwng **cydlyniad cenedlaethol ac ymreolaeth leol**

Trwy'r broses hon, mae'r grŵp yn datblygu **deunyddiau ategol newydd**, gan gynnwys:

- **canllawiau ymarferol** o sut y gallai cynnydd edrych gydag enghreifftiau mewn gwahanol gyd-destunau
- **egwyddorion** sy'n bwysig i ddatblygu cynnydd yn y cwricwlwm
- **adnoddau sy'n seiliedig ar gwestiynau** i gefnogi ymarfer
- deunyddiau eraill gyda **syniadau o ysgolion** i gefnogi'r rhaglen ddysgu

Bydd **Adroddiad Cam 1**, gyda chanfyddiadau manylach, yn cael ei gyheoddi ar ddiwedd y tymor hwn

Bydd **deunyddiau ategol Cam 2** yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd

Ymholiadau am y gwaith hwn neu i ddysgu rhagor, cysylltwch â camau@uwtsd.ac.uk

Dod o hyd i ddeunyddiau ategol ac astudiaethau achos presennol

Cyrchwch **astudiaethau achos ysgrifenedig a fideo** a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru o sut mae ysgolion yn **symud ymlaen o ran cynllunio'r cwricwlwm**, gan gynnwys **eu cynllunio, eu hasesu**, ac **adrodd i rieni a gofalwyr**.

Cyrchwch **ddeunyddiau ategol a chanllawiau** presennol Llywodraeth Cymru ar:

- **Gynllunio cwricwlwm â phwrpas**
- **Egwyddorion cynnydd: cefnogi hunanwerthuso a chyd-ddealltwriaeth o ddilyniant**
- **Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd**
- **Asesu cynnydd dysgwyr**
- **Hunanarfarnu a gwelliant: cynnydd dysgwyr**

Mae **Canllaw ar Gynllunio a Blaenoriaethau Cwricwlwm i Gymru** yn cynnwys gwybodaeth i'r rhai ar bob cam o'u taith ddiwygio a dolenni i ganllawiau allweddol eraill.

Mae **gweithdai Camau asesu ar gyfer y dyfodol** wedi'u datblygu i gefnogi ymarferwyr sy'n dylunio trefniadau asesu yn y Cwricwlwm i Gymru.

Mae **Yr Adnodd Cenedlaethol: Gwerthuso a Gwella** yn cynnwys ysgogiadau i hyrwyddo meddwl a deialog, gan gynnwys ar Gwricwlwm i Gymru a'r dysgwyr a'r dysgu sydd wrth ei wraidd.